**Cofnodion o gyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 yh Nos Fercher 8fed o Dachwedd 2017, yn y Sefydliad Coffa Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones, Alan Pritchard, Martin Jones, Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Clifford Williams, Meirwen Lloyd, Philip Roberts, Haf Williams.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meryl Green (Is-gadeirydd), Llywelyn Williams, Rhys Parry.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (aelod Cyngor Gwyned dros Gwm y Glo).

**Cynrychiolydd y datblygiad**: Mr Huw McKinnon o Fferm Plas Tirion, Llanrug

**Clerc:** Meirion Jones

### 60. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am droi fyny i gyfarfod ychwanegol i'r arferol.

### 61. Derbyn Ymddiheuriadau

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

### 62. Datgan buddiant personol

Fe ddatganodd y Cynghorydd Haf Williams ddiddordeb yn y cais oherwydd bod ei thir yn ffinio a thir yr ymgeisydd a dywedodd na fyddai yn cymryd rhan yn y drafodaeth.

### 63. I ystyried y cais Cynllunio canlynol:-

Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio: C17/1022/23/LL
Lleoliad y Safle: Plas Tirion Farm, Llanrug, Caernarfon, LL554PY

Ward: Cwm y Glo
Cymuned: Llanrug

Bwriad: Codi uned ddyfednod ar gyfer cynhyrchu wyau rhydd, rhodfa, man troi, tirweddu, storfa dail ynghyd a 2 seilo

Eglurodd y Cadeirydd fod y cais yma yn gais gwahanol iawn i'r ceisiadau Cynllunio arferol sydd yn dod o flaen y Cyngor, ac oherwydd maint a natur y cais, penderfynwyd mai'r peth gorau fyddai cynnal cyfarfod arbennig yn unswydd i drafod y cais Cynllunio yma oherwydd dau reswm yn bennaf sef;

a) Roedd yr Awdurdod Cynllunio angen sylwadau cyn dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned; ac
b) Er tegwch i'r cais, er galluogi petai siaradwyr o blaid neu yn erbyn y cais yn cael y cyfle i leisio eu barn

Atgoffodd y Cadeirydd i'r Cyngor Cymuned roi sylwadau ymlaen i'r cyfnod ymgynghoriad, cyn i'r cais Cynllunio llawn ddod i law. Roedd hyn yn cynnwys

a) Sicrhau fod trafnidiaeth o'r safle yn cael ei gyfyngu;
b) I sicrhau nad oedd sŵn yn dod o'r safle;
c) I sicrhau nad oedd arogl yn dod o'r safle

Nodwyd fod sylwadau'r Cyngor Cymuned wedi eu hystyried gan yr asiant cyn rhoi cais Cynllunio llawn i mewn.

Eglurodd Mr Huw McKinnon o Fferm Plas Tirion, y cynllun ac fe aeth a'r aelodau drwy'r cynllun, y broses ac i geisio lleddfu pryderon a leisiwyd. Dywedodd o ran traffig, byddai 1 lorri ddwywaith yr wythnos yn dod i gasglu'r wyau ac 1 lorri fwyd unwaith mewn tua 12 diwrnod. Dywedodd byddai'r lorri yr un maint a lorri sydd yn ar hyn o bryd yn danfon bwyd anifeiliaid. Dywedodd ymhellach fod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi bod ar y safle ac wedi ei hysbysu fod dim anhawster gyda thrafnidiaeth.

O ran sŵn gan y peiriannau awyru, adroddodd fod y gwyntyllau wedi eu bafflo (offer gwrthsain) a bod y mesurau yn dderbyniol i Gyfoeth Naturiol Cymru.

O ran arogl yn deillio o'r safle, adroddwyd gan Mr McKinnon byddai 80% o'r gwastraff yn cael ei rannu ar y caeau pan fyddai gwynt yn chwythu o'r Gorllewin a cyn iddi fwrw. Byddai hyn golygu ei fod yn suddo fewn i'r tir. Yn ogystal, byddai'r carthion sydd yn bowdwr yn cael ei losgi yn ogystal.

O ran cadw llygaid ar y gweithgareddau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio o'r rheolau, adroddodd eu bod yn cael archwiliad yn fisol gan Arolygwyr a hefyd arolygwyr y 'Lion Mark' sydd yn gyfrifol a, safon wyau.

Ar ddiwedd y sesiwn diolchodd Mr McKinnon am y cyfle i ddod i'r cyfarfod a chafodd y dewis i aros neu i adael er galluogi'r Cyngor drafod y cais. Penderfynodd aros yn y cyfarfod ond na fyddai yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth.

Yn sgil y cyflwyniad cafodd yr aelodau'r cyfle i drafod y cais, eu pryderon blaenorol, adborth yr asiant, a hefyd ymateb Mr McKinnon i gwestiynau a ofynnwyd iddo yn ystod y cyfarfod.

**<u>Penderfynwyd</u>**

a) Cefnogi'r cais Cynllunio yn unfrydol a dymunwyd yn dda iddynt fel teulu yn y fenter;

b) y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:40

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**